**CYNLLUN GWEITHREDU RHYWOGAETH:**

LLun / Photo: Kevin Cook



# Y Wiwer Goch

*Sciurus vulgaris*

## Disgrifiad / Ecoleg

Y wiwer goch yw'r unig wiwer frodorol sydd gennym. Mae'n llai o faint na'r wiwer lwyd a gwiwer ddyfod yw honno. Mae ganddi ffwr brown cochlyd, cynffon drwchus ac fe'i nodweddir gan gudynnau o ffwr ar flaenau ei chlustiau yn y Gaeaf. Hadau coed conwydd yw'r ffynhonnell fwyd bwysicaf sydd ganddynt ond byddant hefyd yn bwyta hadau eraill, ffrwythau, blagur, rhisgl a chen. Mae niferoedd y wiwer goch wedi cwympo yn y Deyrnas Gyfunol dros y 50 mlynedd diwethaf ac mae'r wiwer lwyd wedi ei disodli yn y rhan fwyaf o Gymru a Lloegr. Erbyn hyn mae wedi ei chyfyngu i'r Alban, gogledd Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yng Nghymru mae'r wiwer goch wedi ei chyfyngu gan mwyaf i nifer fach o goedwigoedd conwydd, yn bennaf ar Ynys Môn, yng Nghoedwig Clocaenog yn y gogledd ac yn y canolbarth.

## Dosbarthiad yng Ngheredigion

Mae niferoedd bychain o wiwerod coch yng Nghoedwig Tywi a'r cyffiniau ar ffiniau Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Phowys.


### Ffactorau sy'n effeithio ar y rhywogaeth yng Ngheredigion

- Cystadleuaeth – am adnoddau gyda'r wiwer lwyd
- Afiechyd – Firws Brech y Wiwerod
- Colli cynefinoedd neu styrbans oherwydd cwympo coed conwydd

## Beth sy'n digwydd yn lleol?

Mae Prosiect Gwiwerod Coch y Canolbarth yn bartneriaeth sy'n cynnwys y cyrff perthnasol i gyd (Cynghorau Sir Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Phowys, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Brycheiniog, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Y Comisiwn Coedwigaeth a grwpiau

**SPECIES ACTION PLAN:**




© Hawlfraint y Goron. © Crown copyright.

# Red Squirrel

*Sciurus vulgaris*

## Description / Ecology

The red squirrel is our only native squirrel. It is smaller in size than the introduced grey squirrel. It has reddish brown fur, a bushy tail and distinctive tufts of fur on the ear tips in winter. The seeds of conifer trees are the most important food source but other seeds, fruit, buds, bark and lichen are also eaten. Populations of red squirrel in the UK have suffered markedly over the last 50 years with the grey squirrel replacing the species throughout most of England and Wales. Their distribution is now largely confined to Scotland, northern England and Northern Ireland. In Wales red squirrels are mainly confined to a small number of large conifer plantations, mostly on Anglesey, in Clocaenog Forest in north Wales and in mid Wales.

## Distribution in Ceredigion

Red squirrels have been found in small numbers in and near the Tywi Forest around the Ceredigion, Carmarthenshire, Powys border.

### Factors affecting the species in Ceredigion

- Competition for resources from grey squirrels
- Disease – Squirrelpox virus
- Habitat loss or disturbance from commercial felling of conifer trees

## What is being done locally?

The Mid Wales Red Squirrel Project is a partnership of relevant organisations (Ceredigion, Carmarthenshire and Powys County Councils, Wildlife Trust of South & West Wales, Brecknock Wildlife Trust, Countryside Council for Wales (CCW), Forestry Commission (FC) and private forestry groups) that works to safeguard the red squirrel population in the Cambrian Mountains and to raise awareness of red squirrels in this area.

coedwigaeth preifat) sy'n ceisio gwarchod y wiwer goch ym Mynyddoedd Cambria a chodi ymwybyddiaeth ynghylch y gwiwerod coch yn yr ardal hon.

Mae rhai cwmnïau coedwigaeth preifat yn rhoi cyfrif am anghenion y wiwer goch wrth gynllunio eu gwaith.

## Targedau

- Cynyddu'r wybodaeth sylfaenol sydd ar gael am wiwerod coch a'u dosbarthiad
- Cynnal a chynyddu poblogaethau'r wiwer goch erbyn 2010
- Cynnal ac ehangu cynefinoedd yn y coedwigoedd sy'n addas ar gyfer y wiwer goch erbyn 2010

## Beth allwch chi ei wneud i helpu

- Os byddwch chi'n gweld gwiwerod coch rhowch wybod i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru (01239 621212) neu'r cofnodydd mamaliaid sirol (*tommo@ceredigion.gov.uk*)
- Ymunwch â grŵp 'Cyfeillion Gwiwerod Coch y Canolbarth' (cysylltwch â Neil Matthew 01558 825800 ar *n.matthew@ccw.gov.uk*
- Mae angen i reolwyr coedwigoedd reoli cynefinoedd y wiwer goch yn y coedwigoedd mewn modd priodol gan sicrhau eu bod yn cadw'r amrywiol goed y mae'r gwiwerod yn trigo ynddynt a chynnal cysylltiadau rhwng ardaloedd a rheoli'r wiwer lwyd gan drafod yn gyntaf gyda'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac/neu 'r Comisiwn Coedwigaeth
- Peidiwch â phlannu coed llydanddail sy'n creu hadau (e.e. derw, ffawydd a chyll) yn agos at ardaloedd allweddol y wiwer goch.
- Rheoli'r gwiwerod llwyd yn y planhigfeydd allweddol lle mae'n hysbys bod wiwerod coch yn trigo.

## Rhagor o wybodaeth

- Tabl camau gweithredu (rhan 2 cynllun gweithredu'r wiwer goch) am fanylion ynghylch camau gweithredu lleol. Gofyn i'r Swyddog Bioamrywiaeth am fanylion.
- Cynllun Gweithredu'r Deyrnas Unedig ar gyfer y Wiwer Goch (ar gael ar *www.ukbap.org.uk*)
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion (ar gael ar *www.ceredigion.gov.uk*)
- Swyddog Bioamrywiaeth, Adain yr Arfordir a Chefn Gwlad, Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA *biodiversity@ceredigion.gov.uk* 01545 570881

**Partner arweiniol:** Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, Canolfan Bywyd Gwyllt Cymru, Cilgerran, Aberteifi SA43 2TB 01239 621212 *l.wilberforce@welshwildlife.org*

**Dyddiad y cynllun a diweddariadau:** L.Connaire 2004. Diweddarwyd gan P Culyer (Cyngor Cefn Gwlad ac S Andrews (CSC) 2006

Some private forestry operators take into account the requirements of red squirrels when planning and carrying out their operations.

## Targets

- Increase baseline information about red squirrel numbers and their distribution
- Maintain and increase known populations of red squirrel by 2010
- Maintain and expand forest habitat suitable for red squirrel by 2010

## What you can do to help

- Report any sightings of red squirrels to the Wildlife Trust South and West Wales (01239 621212) or the county mammal recorder (*tommo@ceredigion.gov.uk*)
- Join 'Friends of the Mid Wales Red Squirrel group' (contact Neil Matthew 01558 825800 or *n.matthew@ccw.gov.uk* )
- Forest managers to manage red squirrel woodland habitat sympathetically by ensuring a range of preferred tree species and maintaining, improving connectivity between areas and control grey squirrels following discussion with the Wildlife Trusts, CCW and/or FC
- Avoid planting large seed bearing broadleaved trees (eg oak, beech & hazel) in and around key red squirrel areas.
- Control grey squirrels in and around key plantations where red squirrels are known to be found.

## Further information

- Actions table (red squirrel action plan part 2) for details of local action. Ask Biodivesity Officer for details.
- UK Red Squirrel Action Plan (available on *www.ukbap.org.uk*)
- Ceredigion Local Biodiversity Action Plan (available on *www.ceredigion.gov.uk*)
- Biodiversity Officer, Coast & Countryside Section, Department of Environmental Services and Housing, Ceredigion County Council, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA *biodiversity@ceredigion.gov.uk* 01545 570881

**Lead partner**: The Wildlife Trust of South and West Wales, Welsh Wildlife Centre, Cilgerran, Cardigan SA43 2TB 01239 621212 *l.wilberforce@welshwildlife.org*

**Date of plan and updates:** L Connaire 2004. Updated by P Culyer (CCW) & S Andrews (CCC) 2006